

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 283 –25 Tachwedd 2005
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2005.

Cofnodion Pwyllgor Personel a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2005

Nodwyd bod y Pwyllgor Personel yn debygol o gwrdd yn amlach i ddelio â'r gwaith a argymhellwyd yn adroddiad yr archwilwyr mewnol.

Adroddiad y Cadeirydd

Trafodwyd/nodwyd y canlynol:

• **Y BBC**

Nododd ECS ei gwerthfawrogiad o gynhesrwydd ac ewyllys da y noson gyda'r BBC ar y 10fed o Dachwedd.

• **Llythrennedd Cyfryngol**

Cytunwyd bod angen i S4C benderfynu (gydag arweiniad o'r Tîm Rheoli) a ddylai S4C ymrwmo i'r Siarter Llythrennedd Cyfryngol. Cytunwyd i baratoi papur i'w roi i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.

• **Television Sans Frontiers**

Gofynnwyd i EM i baratoi papur ar oblygiadau newidiadau yn y TVWF Directive i S4C cyn cyfarfod "Diwrnod i Ffwrdd".

• Araith yr Arglwydd Currie

• Cymorth i Aelodau

Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

Nodwyd y ddau adroddiad. Angen trefnu bod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn adrodd i'r Awdurdod (e.e. yn flynyddol) ynglŷn â thueddiadau sy'n ymddangos yn y cwynion, Gwifren Gwylwyr ac o'r Grŵp Cydymffurfiaeth. Angen i'r Pwyllgor gyflwyno materion o bwys gerbron yr Awdurdod ond yr Awdurdod i barhau i dderbyn yr un adroddiadau misol.

Crynodeb o ddrafft o gofnodion Grwp Cydymffurfiaeth

Cytunwyd i ychwanegu geiriad newydd i gymal 5.22.iiib ym Mholisi Iaith S4C. Cytunwyd hefyd i gyflwyno papur ar Hyrwyddo Nwyddau i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.

Adroddiad y Prif Weithredwr

Trafodwyd/nodwyd y canlynol:

• **BBC**

• **Pwyllgor Seneddol** – nodwyd bod S4C wrthi'n paratoi'r dystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor ar y 6ed o Ragfyr.

• **Cydymffurfiaeth** – gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried faint o fonitro sydd ei angen er mwyn medru cyflawni ei ddyletswyddau cydymffurfiaeth.

• **Perfformiad** – cyflwynwyd adroddiad Ymchwil yn ei ffurf newydd a mynegodd yr Awdurdod bod y ffurf newydd yn welliant ar yr hen drefn.

• **Cofnodion Panel Strategaeth** – cafwyd trafodaeth ynglŷn â rhaglenni canlynol – *Gwyllt ar Grwydr, Y Clwb Rygbi Cwpan Heineken, Margaret Williams, Cwprdd Dillad, Teledu Eddie, Gêm y Ganrif.*

Adroddiad Corfforaethol

Cyflwynodd TH ei adroddiad ar faterion Corfforaethol. Codwyd/nodwyd y pwyntiau canlynol:

- BBC
- Cyfarfodydd Cyhoeddus S4C – cytunwyd i barhau gyda phedwar cyfarfod cyhoeddus i'w cynnal yn 2006.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ariannol
- Rhaglen waith yr Awdurdod 2005/2006
- Cyflwyniad ar wasanaethau ychwanegol: *Bandit247.com* a *Dudley* ar fandlydan